

## Y Llyfr gan Janette Lewis

Doedd hi ddim wedi mynd allan i brynu llyfr ond roedd hi angen sigarêts felly aeth hi i'r siop rownd y gornel. Roedd y siop yn drewi, aroglau corff a hen fwyd. Welodd hi'r llyfr ar y silff wrth ochr y cownter. Roedd y llyfr yn hyfryd, y lliw, y siâp. Wnaeth hi ei gymryd o'r silff a roedd yn teimlo'n iawn yn ei dwylo.

"Dim ond hanner can ceiniog" meddai dynes seimllyd yr olwg tu ôl i'r cownter. "Does neb isio sgwennu mewn llyfr y dyddiau hyn, mae popeth ar eu ffonau swllyd."

"Wna i ei gymryd o a deg fflag rhad" a gosod ei harian ar y cownter.

Pan gyrhaeddodd adre, gosododd y llyfr ar y bwrdd coffi, eistedd i lawr a chynnau sigarét. Yna sylweddolodd faint o'r gloch oedd hi, rhuthrodd i gael cawod a gwisgo ar gyfer y noson fawr allan o'i blaen. Gadawodd hi'r tŷ.

Trannoeth eisteddodd hi ar y soffa efo'r llyfr a'i agor ar y dudalen gyntaf. Y dudalen wag. Be ddylai hi ysgrifennu? Efallai am be oedd wedi digwydd neithiwr? Na dim eto, rhy fuan, rhy boenus.

Aeth hi'n flin, taflu'r llyfr ar y llawr ac aeth i'r gegin am goffi du. Pan ddychwelodd hi; roedd y llyfr yn gorwedd ar agor ar y bwrdd. Drachtiodd hi'r coffi cryf poeth pan welodd hi bod 'na ysgrifen ar y dudalen mewn inc crafog coch. Ddarllenodd y dudalen; darllen yr holl ddisgrifiad o be oedd wedi digwydd neithiwr. Mewn sioc, rhwygodd hi'r llyfr ar wahân a'i daflu ar y tân.

Aeth hi i'r gegin am fodca. Dychwelodd i'r lolfa a sgrechian pan welodd y llyfr yn ôl ar y bwrdd, ar agor; yr un geiriau yn dangos.

Wedyn, gwelodd y golau glas yn fflachio drwy'r ffenest ac ar yr un pryd clywodd gnoc ar y drws.